# Celf Blwyddyn 10 RhDd 3 – Gwaith Cwrs Celf

Ysgol Brynhyfryd

NID DYSG HEB FOES

**Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu**

☐ **Sgiliau:** Bydd y myfyrwyr yn

- Datblygu sgiliau wrth ddefnyddio amrediad o gyfryngau a thechnegau (AA2) cyn datblygu eu thema eu hunain i ymchwilio iddo a fydd yn arwain at eu gwaith celf eu hunain.
- Ymateb i waith yr artistiaid a ymchwiliwyd ganddynt yn ysgrifenedig (AA1) ac yn weledol (AA2).
- Ymchwilio i gyfryngau sy'n berthnasol i'w thema a'u hartistiaid ymchwil (AA2)
- Cynhyrchu syniadau ar gyfer eu thema ddewisedig a datblygu'r syniadau hynny trwy frasluniau, lluniadu arsylwi, ffotograffau ac anodi (AA3)
- Creu gwaith celf wedi'i seilio ar eu syniadau a'u hymchwiliadau eu hunain yn annibynnol, gan ddefnyddio cyfryngau gyda sgil a chywreinrwydd i greu gwaith celf ystyrlon, personol. (AA4)

☐ **Gwybodaeth:** Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu gwybodaeth am:

- Yr artistiaid i'w hastudio, defnydd yr artistiaid o gyfryngau a'r cysyniadau y tu ôl i'r gwaith celf. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu eu syniadau eu hunain ar gyfer eu thema ddewisedig. (AA1)
- Y cyfryngau a'r technegau sy'n ofynnol i greu'r gwaith celf maen nhw'n bwriadu ei greu. (AA2)

☐ **Dealltwriaeth:** Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o'r Amcanion Asesu (AA) trwy gwblhau'r gwaith paratoi ar gyfer eu hasesiad.

**Termau Allweddol:**
**Amcanion**
**Asesu (AA):**
**AA1: Dealltwriaeth gyd-destunol:**
**AA2: Gwneud creadigol:**
**AA3: Cofnodi myfyriol:**
**AA4 : Cyflwyniad personol:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 1:**<br>☐ ***Bydd y myfyrwyr yn deall* gofynion y modiwl nesaf: Cyflwyniad i'r prosiect 'Yr Anifail i fewn', gan edrych ar PPT am at Peony Yip/Sophie Woodrow:** Dewiswch eich anifail delfrydol; Print Carbon o'r amlinelliad a llenwi'r tu mewn gyda'r dechneg gwneud marciau. | | **Meini prawf llwyddiant:**<br>Print Carbon:<br>Cywirdeb a defnydd o'r ystod donyddol lawn | **Gwaith Cartref RhDd 3 1**<br>Dewch â ffotograff o'ch hoff anifail anwes i'r ysgol |
| **RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 2:**<br>***Bydd y myfyrwyr yn deall*** y technegau sydd eu hangen i gwblhau monobrint o ddelwedd o anifail;<br>☐ Bydd y myfyrwyr yn cwblhau monobrint o'r anifail a ddewiswyd ar gyfer y print carbon neu o lungopi o'u ffotograff. | | **Meini prawf llwyddiant:**<br>Monobrint:<br>Cywirdeb ac amrywiaeth o dechnegau gwneud marciau i ddangos gwahanol weadau. | **Gwaith Cartref RhDd 3 2**<br>Lluniad pensil A4 o anifail anwes<br>Gradd: |
| **RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 3:**<br>***Bydd y myfyrwyr yn gallu*** ymateb i artist trwy gwblhau anifail ceramig yn arddull **Sophie Woodrow**.<br>FfLlRh: YL2 – Ysgrifennu'n gywir: Defnydd o eirfa... Gallaf ddefnyddio geirfa amrywiol ac addas yn gywir, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion sy'n benodol i'r pwnc.<br><br>Ymateb i wybodaeth ysgrifenedig a gweledol, ysgrifennu ymateb disgrifiadol, deongliadol a dadansoddol i waith artist:<br>Bydd y myfyrwyr yn defnyddio eu gwaith ymchwil ar Olivia Brown i gwblhau darn o waith ysgrifennu estynedig (PPP) i ddangos eu dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o destun a ddefnyddir wrth ysgrifennu am waith celf/artist. | Asesiad<br>ACD<br>/100<br>Gradd: | **Meini prawf llwyddiant:**<br>Gwaith ysgrifenedig – Ymateb i waith artist.<br>FfLlRh – Tasg ysgrifennu.<br>1. Bydd y myfyrwyr yn cwblhau darn o waith ysgrifennu estynedig, gan gynnwys disgrifiad/ dadansoddiad/ dehongliad a beirniadaeth o waith Brown. | |
| **RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 4:**<br>***Bydd y myfyrwyr yn deall*** y technegau cerameg sydd eu hangen i wneud anifail allan o glai;<br>☐ **Gwneud anifail anwes ceramig wedi'i ysbrydoli gan waith Olivia Brown**. Defnyddio PPT cam wrth gam gyda'r myfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn y dechneg gywir. | | **Meini prawf llwyddiant:**<br>Canlyniad ceramig:<br>Defnyddio'r dechneg slab i greu<br>- ochrau cyfartal<br>- nodweddion cadarn | **Gwaith Cartref RhDd 3 4**<br>Collage DROS lungopi o'r lluniad pensil o anifail anwes<br>Gradd: |
| **RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 5:**<br>***Bydd y myfyrwyr yn gallu*** defnyddio eu sgiliau paentio i addurno llungopi monobrint, gan ddefnyddio paent acrylig. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio technegau a ddysgwyd yn ystod y modiwl ar bortreadau i gwblhau'r gwaith hwn. | | **Meini prawf llwyddiant:**<br>Canlyniad gwaith paent acrylig: Cywirdeb, gweadau amrywiol a'r ystod donyddol lawn | |
| **RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 6:**<br>***Bydd y myfyrwyr yn gallu*** defnyddio eu sgiliau paentio i baentio anifeiliaid anwes Olivia Brown, gan ddefnyddio paent wedi'i gymysgu'n barod. Bydd angen i'r myfyrwyr gymysgu lliwiau eilaidd a phaentio eu gwaith cerameg, gan gofio cynnwys gwead a thôn<br>Gradd: | Asesiad<br>AC<br>/120 | **Meini prawf llwyddiant:**<br>Darn Asesu. Canlyniad Ceramig:<br>- Cywirdeb<br>- Gweadau<br>- Ystod donyddol lawn | |